4013

Cyngor Sir CEREDIGION
CEREDIGION County Council

| | | |
|---|---|---|
| **DYDDIAD** | **12 Mawrth** | **2008** |
| DATED | 12 March | 2008 |

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

**GORCHYMYN GWAHARDD CŴN (AR Y PROMENÂD, BORTH) 2008**
THE DOGS ON LEADS (ON THE PROMENADE, BORTH) ORDER 2008

Miss C N Jones
Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Cyfreithiol
Assistant Director of Legal Services
Cyngor Sir Ceredigion County Council
Penmorfa
ABERAERON
Ceredigion

**,DF CYMDOGAETHAU GLÂN A'R AMGYLCHEDD 2005**
,E CLEAN NEIGHBOURHOODS AND ENVIRONMENT ACT 2005

**RHEOLIADAU GORCHMYNION RHEOLI CŴN (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) (CYMRU) 2007 (OS2007/702) (W.59)**
THE DOG CONTROL ORDERS (MISCELLANEOUS PROVISIONS) (WALES) REGULATIONS 2007 (SI 2007/702) (W.59)

**Mae CYNGOR SIR CEREDIGION drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:**
CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL hereby makes the following Order:

**GORCHYMYN CŴN AR DENNYN (AR Y PROMENÂD, BORTH) 2008**
THE DOGS ON LEADS (ON THE PROMENADE, BORTH) ORDER 2008

**Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod 1af o Ebrill 2008.**
This Order comes into force on the 1st day of April 2008.

**Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i'r tir a bennir yn yr Atodlen amgaeedig.**
This Order applies to the land specified in the Schedule attached.

**Y TRAMGWYDD**
OFFENCE

**(1) Bydd person sydd â chyfrifoldeb dros gi yn euog o dramgwydd, yn ystod y cyfnod a bennir yn Atodlen 2, ar unrhyw dir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo, os na fydd y person hwnnw yn cadw'r ci ar dennyn, oni bai:-**
- **(a) bod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros fethu â gwneud hynny; neu**
- **(b) bod perchennog y tir, meddiannydd y tir neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw fethu â gwneud hynny.**

(1) A person in charge of a dog shall be guilty of an offence if, during the periods specified in Schedule 2, on any land to which this Order applies that person does not keep the dog on a lead, unless:-

(a) that person has a reasonable excuse for failing to do so; or
(b) the owner, occupier or other person or authority having control of the land has consented (generally or specifically) to that person failing to do so

**(2) At ddibenion yr erthygl hon cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar unrhyw adeg onid oes rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno.**

(2) For the purposes of this article a person who habitually has a dog in their possession is taken to be in charge of the dog at any time unless at that time some other person is in charge of the dog.

**Y GOSB**
PENALTY

**Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan erthygl 3 yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.**
A person who is guilty of an offence under article 3 is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

**Dyddiedig y 12fed o Fawrth 2008**
Dated this 12th day of March 2008.

**Gosodwyd Sêl Gyffredin CYNGOR SIR CEREDIGION yma ym mhresenoldeb:-**
The Common Seal of CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL was affixed hereto in the presence of:-

4013

..................................
**Cadeirydd**
Chairman

..................................
**Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Cyfreithiol**
Assistant Director of Legal Services